# Cyngor a thriniaeth y GIG am ddim drwy eich fferyllydd lleol

Gall eich fferyllydd lleol gynnig cyngor ar fân bryderon iechyd a darparu rhai meddyginiaethau dros y cownter a meddyginiaethau ar bresgripsiwn, lle bo hynny'n briodol, **yn rhad ac am ddim**, heb fod angen i chi weld eich meddyg teulu.

Does dim angen apwyntiad a gall eich fferyllydd eich cyfeirio at un o wasanaethau eraill y GIG os yw'n teimlo bod angen gwneud hynny.

**Cofiwch archebu eich presgripsiynau rheolaidd 7 diwrnod ymlaen llaw** – bydd angen 2 neu 3 diwrnod ychwanegol dros wyliau banc.

**Dysgwch am y ffyrdd newydd y gallwch chi gael gafael ar ofal iechyd, gan gynnwys sut gall fferyllwyr eich helpu, drwy fynd i 111.wales.nhs.uk/Fferylliaeth**

Ewch i weld eich fferyllydd os oes gyda chi un o'r anhwylderau cyffredin yma:

- acne
- tarwden y traed
- poen cefn (acíwt)
- brech yr ieir
- dolur annwyd
- colig
- llid pilen y llygad (haint bacteriol y llygad)
- rhwymedd
- dermatitis
- dolur rhydd
- llygaid sych
- hemoroidau (clwyf y marchogion)
- clefyd y gwair
- llau pen
- camdreuliad
- ewinedd yn tyfu i'r byw
- llid rhwbio (brech mewn plygiadau croen)
- wlserau'r geg
- brech cewyn
- llindag y geg
- tarwden
- clefyd crafu
- llwnc tost
- torri dannedd
- edeulyngyr
- llindag y wain
- ferwca

Bydd pob newid a wnewch yn **helpu ni i'ch helpu chi.**